
Capita

# Cyflwyniad

| | |
|---|---|
| Capita | Ni yw Capita. Rydym yn cyflawni asesiadau Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). |
| Adran Gwaith a Phensiynau | Mae asesiad yn helpu'r DWP i ddeall y math o gymorth sydd ei angen arnoch. |
|  | Bydd y canllaw hwn yn esbonio beth i'w ddisgwyl a sut i baratoi ar gyfer eich asesiad PIP. |
| cyngor ar bopeth citizens advice | Os oes angen cymorth arnoch â’ch hawliad PIP, mae llawer o sefydliadau a a all eich helpu:<br>• Cyngor ar Bopeth<br>• Elusennau sy'n helpu pobl â chyflyrau neu anableddau penodol. |

Capita

# Y broses PIP

**Dyma'r prif gamau y byddwch yn mynd trwyddynt.**

| | |
|---|---|
| Adran Gwaith a Phensiynau | 1. Cysylltwch â’r DWP i gychwyn eich hawliad PIP. I gael gwybod sut i wneud hyn, ewch i www.gov.uk/pip/how-to-claim |
|  | 2. Llenwch y ffurflen ‘Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch chi’ a anfonir atoch chi. |
|  | 3. Bydd ein gweithiwr iechyd proffesiynol yn edrych ar eich ffurflen a’r holl wybodaeth rydych wedi ei hanfon. |
|  | 4. Bydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn cyflawni eich asesiad ac yn ysgrifennu adroddiad. |

Capita


| | |
|---|---|
|  Adran Gwaith a Phensiynau | 5. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei anfon i'r DWP. |
|  | 6. Bydd y DWP yn defnyddio’r wybodaeth rydych wedi anfon i mewn ac adroddiad eich asesiad i benderfynu os gallwch gael PIP. |
|  | 7. Bydd y DWP yn anfon llythyr i chi yn rhoi gwybod os gallwch gael PIP neu beidio. |

Am ragor o wybodaeth am PIP, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Taliadau Annibyniaeth Bersonol Hawdd i’w Ddarllen.**

# Gwybodaeth gynorthwyol

**Ceisiwch anfon cymaint o wybodaeth ag y gallwch gyda'ch ffurflen hawlio.**

| | |
|---|---|
|  | **Gwybodaeth sy'n ddefnyddiol i ni yw:**<br><br>• Rhestr o'r meddyginiaethau rydych yn eu cymryd |
|  | • Adroddiad neu gynllun gofal gan:<br>  ○ Feddyg Teulu neu ymgynghorydd<br>  ○ Nyrs seiciatrig gymunedol (CPN)<br>  ○ Therapydd galwedigaethol<br>  ○ Gweithiwr cymdeithasol<br>  ○ Tîm cymorth anabledd dysgu |
|  | • Datganiadau gan ofalwyr neu aelodau’r teulu, fel dyddiadur gofalwr |
|  | • Llythyr ynghylch eich cyflwr neu ddiagnosis gan:<br>  ○ eich ymgynghorydd(wyr)<br>  ○ yr ysbyty sy'n eich rhyddhau<br>  ○ clinig cleifion allanol |
|  | **Nid oes angen i chi anfon**<br><br>• Cardiau neu lythyrau apwyntiad |

| | |
|---|---|
|  | • Llythyrau derbyniad i ysbyty |
|  | • Dalenni ffeithiau am eich cyflwr, diagnosis neu’r feddyginiaeth rydych chi'n ei chymryd |
|  | • Gwybodaeth am brofion rydych chi'n mynd i'w cael |
|  | • Tocynnau bws neu drên a chyfarwyddiadau neu fapiau i apwyntiadau y buoch iddynt |
| Adran Gwaith a Phensiynau | • Gwybodaeth rydych wedi ei hanfon i'r DWP o'r blaen ar gyfer PIP |

Capita

# Ynglŷn â'ch asesiad PIP

| | |
|---|---|
|  | Bydd eich asesiad yn parhau oddeutu awr. |
|  | Bydd eich asesiad gyda gweithiwr iechyd proffesiynol cymwysedig. Gall fod yn:<br>• nyrs<br>• ffisiotherapydd<br>• therapydd galwedigaethol<br>• parafeddyg |
|  | Bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn cwestiynau i chi ynghylch sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch chi. |
|  | Efallai y bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn i chi wneud rhai symudiadau sylfaenol. |



Os yw’r symudiadau hyn yn rhy anodd, rhowch wybod i'r gweithiwr iechyd proffesiynol.



Mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yno i’ch helpu chi.

Peidiwch â phoeni am gael pob gair yn iawn neu fod yn ofidus.



Gallai’ch asesiad fod:

- wyneb yn wyneb
- dros y ffôn
- ar alwad fideo.



Os byddwch yn ffonio neu'n ysgrifennu atom, defnyddiwch y cyfeirnod hwn: PIP00119771/101

Adran Gwaith a Phensiynau

Capita PIP
PO Box 307
Darlington
DL98 1AB

www.capita-pip.co.uk

**Ffôn:**
0808 178 8114
**Llinell Gymraeg:**
0808 178 8115
**Gwasanaeth cyfnewid testun:**
18001 0808 178 8114

16/09/2021

Mrs letter test
Capita Business Services
Unit 500 Fort Dunlop
Fort Parkway
Birmingham
B24 9FD

Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)
Eich apwyntiad am asesiad fideo

Annwyl Mrs letter test

Capita ydyn ni, cwmni annibynnol sy'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Rydym yma i helpu'r DWP i ddeall sut mae'ch cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio ar eich bywyd dyddiol. Bydd hyn yn eu helpu i asesu eich hawliad PIP yn deg a chywir.

Rydyn ni wedi trefnu apwyntiad i chi gael asesiad gyda gweithiwr iechyd proffesiynol. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gynnal dros fideo.

Mae manylion eich apwyntiad fel a ganlyn

| | |
|---|---|
| Dyddiad | 27/09/21 |
| Amser | 11:00 |
| Ymunwch ar | https://attenduk.vc/waiting-area-capita |

Bydd eich llythyr apwyntiad yn nodi pa fath o asesiad y byddwch yn ei gael.





Os oes eisiau cael eich asesu arnoch mewn ffordd wahanol, cysylltwch â ni.

| | |
|---|---|
|  | Cysylltwch â ni os oes angen cymorth ychwanegol arnoch ar gyfer eich asesiad, er enghraifft:<br><br>• Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain<br>• Dehonglydd os nad yw Saesneg yn iaith gyntaf i chi |
|  | Gallwch gael rhywun i ymuno â chi ar gyfer eich asesiad. Gallai'r person yna fod yn:<br><br>• ffrind<br>• aelod o'r teulu<br>• gofalwr<br>• gweithiwr cymorth |

# Asesiadau wyneb yn wyneb

| | |
|---|---|
|   | Mae angen i chi ddod â 2 ddogfen adnabod gyda chi – 1 o Restr A ac 1 o Restr B. |
|   | Os nad oes gennych chi unrhyw un o’r dogfennau o Restr A, bydd angen i chi ddod â 2 o Restr B. |
|  | **Rhestr A**<br><br>• Pasbort y Deyrnas Unedig neu Dramor<br>• Cerdyn adnabod cenedlaethol tramor<br>• Trwydded yrru cerdyn llun o'r Deyrnas Unedig<br>• Cerdyn hunaniaeth etholiadol Gogledd Iwerddon |

| | |
|---|---|
| | • Caniatâd preswylio biometrig<br>• Cerdyn teithio y Deyrnas Unedig â llun arno |
| <br>GK 140986<br>CERTIFICATE OF BIRTH<br>TYSTYSGRIF GENEDIGAETH<br>Name and Surname / Enw a Chyfenw<br>Sex: Female<br>Rhyw<br>Date of Birth: Twentieth November 1983<br>Dyddiad y Geni<br>Place of Birth / Lle y Ganwyd — Registration District / Dosbarth Cofrestru — Sub-district / Is-ddosbarth<br>I, / Yr wyf i, — Registrar of Births and / Cofrestrydd Genedigaethau<br>Deaths for the sub-district of / a Marwolaethau is-ddosbarth<br>in the Registration District of / Dosbarth Cofrestru<br>do hereby certify that the above particulars have been compiled from an entry in a register in my custody.<br>yn tystio yma fod y manylion uchod wedi eu casglu o gofnod mewn cofrestr a gedwir gennyf i.<br>Date 29th November 1983<br>Dyddiad<br>Registrar of Births and Deaths<br>Cofrestrydd Genedigaethau a Marwolaethau<br>CAUTION:—It is an offence to falsify a certificate or to make or knowingly use a false certificate or a copy of a false certificate intending it to be accepted as genuine to the prejudice of any person, or to possess a certificate knowing it to be false without lawful authority.<br>SQBTE60 | **Rhestr B**<br><br>• Tystysgrif geni – o'r Deyrnas Unedig neu Dramor<br>• Tystysgrif priodas – o'r Deyrnas Unedig neu Dramor<br>• Archddyfarniad absoliwt – o'r Deyrnas Unedig neu Dramor<br>• Trwydded yrru bapur o'r Deyrnas Unedig<br>• Tystysgrif brodori dinasyddiaeth y Deyrnas Unedig<br>• Cytundeb rhent cyngor neu gymdeithas dai o'r Deyrnas Unedig<br>• Cytundeb tenantiaeth cyngor neu gymdeithas dai o'r Deyrnas Unedig<br>• Bil treth cyngor o'r Deyrnas Unedig<br>• Bil nwy, trydan neu ddŵr o'r Deyrnas Unedig<br>• Tystiolaeth o hawl i fudd-dal y wladwriaeth neu fudd-dal awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig |
|  | Os na fyddwch yn dod â'ch dogfennau adnabod, ni fyddwch yn gallu cael eich asesiad. |


| | |
|---|---|
|  | Os ydych chi'n dymuno i ni recordio eich asesiad, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl. |
|   | Gallwch hawlio costau teithio i ac o’ch asesiad. |



Capita


# Asesiadau teleffon

| | |
|---|---|
|  | Cyn eich asesiad ffôn, bydd angen i chi:<br><br>• Sicrhau bod digon o fatri ar eich ffôn<br>• Sicrhau eich bod mewn lle tawel<br>• Rhoi gwybod i ni os ydych chi'n dymuno i'ch asesiad gael ei recordio |
|  | Ar amser cychwyn eich apwyntiad, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn eich ffonio o rif sydd wedi ei atal.<br><br>**Gall hyn ddangos fel Dim ID Galwr neu Anhysbys** |
|  | Bydd yn rhoi gwybod i chi ei fod yn ffonio o Capita PIP. |
|   | Bydd yn gofyn rhai cwestiynau adnabod cyn cychwyn eich asesiad. |


# Asesiadau fideo

| | |
|---|---|
|  | **Ar gyfer asesiad fideo bydd angen:**<br><br>• cyfrifiadur neu liniadur<br>• llechen<br>**neu**<br>• ffôn clyfar arnoch |
|  | Bydd angen cysylltiad rhyngrwyd da arnoch hefyd. |
|  | Dylech brofi eich offer cyn eich asesiad fideo. |
|  | I wneud y prawf, teipiwch neu gopïo a gludo'r ddolen hon i'ch porwr rhyngrwyd:<br><br>https://consult.attendanywhere.co.uk/callers |

| | |
|---|---|
|  | Ar yr amser ar eich llythyr apwyntiad, teipiwch neu gopïo a gludo’r ddolen hon i’ch porwr rhyngrwyd:<br><br>[https://attenduk.vc/waiting-area-capita](https://attenduk.vc/waiting-area-capita) |
| | Ar lechen neu ffôn clyfar Android, defnyddiwch y porwr Google Chrome. |
| | Ar ddyfeisiau Apple, fel iPhone, iPad neu iMac, defnyddiwch y porwr Safari. |
| | Ar gyfer gliniadur neu gyfrifiadur desg yn defnyddio Windows, defnyddiwch y porwr Microsoft Edge.<br><br>Gallwch hefyd ddefnyddio Google Chrome. |
|  | Dewiswch **‘Mynd i’r Ardal Aros’** |





Darllenwch yr wybodaeth ar y sgrîn ac yna dewis ‘Cam nesaf’.




Gofynnir i chi deipio eich:

- enw
- dyddiad geni
- rhif ffôn

Yna dewiswch ‘Cam nesaf’




Darllenwch a derbyniwch yr Amodau a Pholisïau trwy dicio'r blwch.

Yna dewiswch ‘Mynd i’r Ardal Aros’.

| | |
|---|---|
|  | Ar adeg eich apwyntiad, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn cychwyn yr alwad fideo.<br><br>Byddwch yn gallu ei weld a'i glywed. |
|    | Bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn rhoi gwybod i chi ei fod yn ffonio o Capita PIP.<br><br>Bydd yn gofyn ambell gwestiwn i gadarnhau pwy ydych chi. |
|   | Ni allwch recordio eich asesiad fideo. |

# Ar ôl eich asesiad

| | |
|---|---|
|  | Bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn ysgrifennu adroddiad a'i anfon at y DWP. |
|  | Bydd y DWP yn gwneud penderfyniad ynghylch eich cais am PIP. |
|  | I wneud y penderfyniad, bydd yn edrych ar:<br><br>• Adroddiad yr asesiad<br>• Eich ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch chi'<br>• Tystiolaeth arall a roddoch i ni |
|  | Os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad y DWP, dylech gysylltu â nhw.<br><br>Ffôn: 0800 121 4433<br><br>Ffôn testun: 0800 121 4493 |

# Sut i gyslltu â ni

| | |
|---|---|
|  | Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â’ch asesiad, cysylltwch â ni. |
|  | Rydym ar agor 8am hyd 8pm, dydd Llun i ddydd Gwener. |
|  | Gall rhywun arall ffonio ar eich rhan. Bydd angen gwybod eich rhif Yswiriant Gwladol. |
|  | Ffoniwch ni am ddim ar **0808 178 8114** (Llinell Gymraeg 0808 178 8115). |
|  | Os na allwch chi glywed neu siarad dros y ffôn, gallwch ddefnyddio NGT neu Relay UK: **18001** yna **0808 178 8114**. |
|  | Os ydych chi'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, gallwch ddefnyddio’r **Gwasanaeth Cyfnewid Fideo.**<br><br>Teipiwch y ddolen hon yn eich porwr rhyngrwyd: www.capita-pip.co.uk/cy/contact.html. |

Capita

| | |
|---|---|
| | Cliciwch ar y ddolen **Gwasanaeth cyfnewid fideo** o dan **‘Gwybodaeth gysylltu’**. |
|  | Gallwch hefyd ysgrifennu atom:<br><br>**Capita PIP**<br>**PO Box 307**<br>**Darlington**<br>**DL98 1AB** |
|  | Neu anfon e-bost: **contactus@capita-pip.co.uk** |